OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 925

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011

## RHAN 2

Apelau — cyffredinol

**Apêl yn erbyn penderfyniadau trwyddedu morol**

**4.**—(1) Caiff person a wnaeth gais am drwydded forol apelio i Weinidogion Cymru drwy hysbysiad yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan adran 71 o'r Ddeddf (gwrthod trwydded neu ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau etc).

(2) Rhaid gwneud apelau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**Penderfynu gan berson a benodir**

**5.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person ("y person penodedig")—

(a) i benderfynu, pan ddaw hysbysiad apêl i law yn unol â rheoliad 4(1), a yw'r hysbysiad a ddaeth i law yn hysbysiad apêl dilys, ac os ydyw,

(b) penderfynu'r apêl.

(2) Rhaid penderfynu apelau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Pan wneir penodiad o dan baragraff (1)—

(a) rhaid gwneud y penodiad mewn ysgrifen;

(b) ceir gwneud y penodiad ar gyfer unrhyw apêl benodol a bennir yn y penodiad, neu ar gyfer dosbarth neu ddisgrifiad o apelau a bennir felly;

(c) caiff fod yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir yn y penodiad;

(ch) caiff ddarparu ar gyfer talu i'r person penodedig.

(4) Mewn perthynas ag unrhyw apêl nad yw eisoes wedi ei phenderfynu, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad a wnaed o dan baragraff (1) os—

(a) hysbysir hwy mewn ysgrifen gan y person penodedig, neu

(b) os bodlonir hwy rywfodd arall,

nad yw'r person penodedig yn alluog i gyflawni gofynion paragraff (1).

(5) Pan ddirymir penodiad felly mewn perthynas ag unrhyw apêl, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benodi person arall o dan baragraff (1) i benderfynu'r apêl.

(6) Pan wneir penodiad newydd, rhaid i'r ystyriaeth o'r apêl, neu unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad mewn perthynas â hi, ailddechrau o'r newydd.

(7) Ond nid oes dim ym mharagraff (6) sy'n gwneud yn ofynnol rhoi cyfle i unrhyw berson wneud sylwadau neu esboniadau newydd, nac addasu na thynnu'n ôl unrhyw sylwadau neu esboniadau a wnaed eisoes.